Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Fercher, 5 Mehefin 2019 yn Neuadd Pentref Y Groeslon am 7 yr hwyr.

Minutes of the Finance Committee held at Groeslon Village Hall, Wednesday 5th June 2019 at 7.00pm

Yn bresennol / Present
Cynghorwyr Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Gerwyn Owen; Hywel Owen, David C Davies; Eddie Wilcox; Clive Bayley
David Roberts Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / Admin & Finance Manager

1 Ethol Cadeirydd am y flwyddyn – Elect a Chaiman for the year

Agorwyd y cyfarfod gan cyn Cadeirydd y Pwyllgor . Cyng. Gerwyn Owen. Aethpwyd ati yn syth I ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwylgor am y flwyddyn.

Penderfynwyd ethol Cyng. David C Davies fel Cadeirydd a Cyng. Gwyn Owen Jones fel Is-gadeirydd fel Is-gadeirydd

Resolved – to elect Cllr. David C Davies as Chairman and Cllr. Gwyn Owen Jones Vice-Chairman

2 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welome

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Pwyllgor . Cyng. David C Davies. Diolchodd i pawb am fynychu. Aeth yn syth at y rhaglen.

3 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Bryn Williams

4 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant gan yr aelodau oedd yn bresennol. No member present declared an interest.

5 Mabwysiau Polisi a Ffurflen Gais ar Gyfer Rhoddian Adran 137 – To adopt a Policy and Application Form for Section 137 Grants

Eglurwyd gan y Rheolwr fod gwendidau wedi dod i'r amlwg yn nhrefniadau llywodraethol y Cyngor o sgorio ceisiadau am roddion ariannol. Penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod dyddiedig 20 Mai oedd gofyn i'r Pwyllgor Cyllid llunio polisi a ffurflen gais cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu

Dosbarthwyd enghraifft o bolisi a ffurflen gais gan Gynghorau Cymuned yng Nghymru ac o Loegr fel mab cychwyn.

Aethpwyd ati i lunio polisi

Gofynnwyd i'r Rheolwr cadw'r ddogfen yn syml gan ddefnyddio pwyntiau bwled.

CB o'r farn fod angen cynnwys system sgorio ar y polisi.

Pawb yn cytuno y bydd angen cyfarfodydd pellach cyn argymell polisi a ffurflen gais terfynol i'r Cyngor ei fabwysiadu.

Cytunwyd ar amserlen sef
Mehefin 2019– Awst 2019– cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid i gyrraedd pen y daith
Medi 2019 - Cyngor llawn Medi i fabwysiadu polisi a ffurflen gais
Hydref 2019- Rheolwr i anfon y polisi a ffurflen gais i'r ymgeiswyr arferol ac i'w lwytho ar y gwefan.

Argymhellion i'r Cyngor-

i) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth uchod ac yn ymddiried yn y Pwyllgor I gwblhau'r gwaith.
ii) Fod y Cyngor yn derbyn yr amserlen fel nodwyd uchod.

Recommendation to Council
i) For the Council to accept the information as noted and to entrust the Committee to complete thw work
ii) For the Council to accept the timetable as set out

6 Pensiwn Y Rheolwr / Managers Pension

Adroddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor ei fod wedi sefydlu cyfrif i'r Cyngor gyda NEST ar gyfer pensiwn y Rheolwr.
Roedd Caryl Pugh o gwmni W J Matthews wedi cael mynediad i'r cyfrif er mwyn trefnu fod y taliad yn mynd o fanc y Cyngor i ccyfrif NEST ar gyfer cyfraniad y Rheolwr o 5% a chyfraniad y cyflogwr o 10%

Argymhellion i'r Cyngor- Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth.
Recommendation to Council - to accept the information.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50 yr hwyr / The meeting ended 7:50 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor **Signed by the Chairmam**	
Dyddiad - Date	